

EU referendum: Campaigner update No. 7

March 2016

Ymunwch â'n rhestr
ddiweddaru

Gallwch gofrestru i dderbyn y
diweddariadau hyn ar ein
[gwefan](#) neu drwy ffonio 0333
103 1929

Cynhelir refferendwm ar
aelodaeth y Deyrnas
Unedig o'r Undeb
Ewropeaidd ar 23 Mehefin
2016.

Ni sy'n rheoleiddio arian a
gwariant gwleidyddol.
Rydym yn cofrestru
ymgyrchwyr ac yn
rheoleiddio eu gwariant a'u
rhoddion mewn refferenda.

Ein nod yw sicrhau
uniondeb a thryloywder o
ran cyllid a gwariant ar
ymgyrchu i bleidleiswyr.

Byddwn yn parhau i
gyhoeddi diweddariadau,
gan ddarparu canllawiau
ychwanegol i ymgyrchwyr
ar unrhyw newidiadau i'r
rheolau, arfer gorau ar
gyfer ymgyrchwyr a
dyddiadau allweddol a
dyddiadau cau.

Ynglŷn â'r diweddariad hwn

Mae'r diweddariad hwn yn ymdrin â'r canlynol:

- amserlen y refferendwm
- canllawiau i ymgyrchwyr
- cofrestru fel ymgyrchydd
- grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig
- llyfryn gwybodaeth i'r cyhoedd ar Refferendwm yr UE
- ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth

Amserlen y refferendwm

Mae cyfnod ymgyrchu ffurfiol a elwir yn gyfnod y refferendwm pan fydd y rheolau ar wariant yn gymwys. Mae cyfnod y refferendwm yn dechrau ar 15 Ebrill ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio sef 23 Mehefin.

Adrodd cyn y bleidlais

Yn y cyfnod cyn y refferendwm, rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig (heb gynnwys pleidiau gwleidyddol cofrestredig, ond gan gynnwys pleidiau llai) roi gwybod i ni am roddion a benthyciadau penodol. Gelwir hyn yn adrodd cyn y bleidlais.

Y cyfnod adrodd cyn y bleidlais cyntaf ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig yw 1 Chwefror - 21 Ebrill 2106. Y dyddiad cau ar gyfer yr adroddiad cyn y bleidlais cyntaf yw **28 Ebrill 2016**.

Mae rhagor o wybodaeth am adroddiadau cyn y bleidlais ar ein [gwefan](#). Y dyddiadau adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig yw:

Cyfnod adrodd

Dyddiad cau ar gyfer adroddiadau cyn y bleidlais

1 Chwefror - 21 Ebrill

28 Ebrill

22 Ebrill - 12 Mai

19 Mai

13 Mai - 9 Mehefin

16 Mehefin

10 Mehefin - 22

29 Mehefin

Mehefin

Mae amserlen y refferendwm a dyddiadau cau adrodd i ymgyrchwyr cofrestredig ar gael ar ein [gwefan](#).

Canllawiau i ymgyrchwyr

Mae rheolau y mae'n rhaid i ymgyrchwyr eu dilyn yn y cyfnod cyn y refferendwm. Darparwn ganllawiau i helpu ymgyrchwyr i gydymffurfio â'r rheolau hyn.

Gallwch weld ein holl ganllawiau ar gyfer y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE) ar y [dudalen hon](#). Rydym wedi cyhoeddi trydydd cam ein canllawiau:

- [Amserlen a dyddiadau cau adrodd ar gyfer Refferendwm yr UE](#)
- [Gwariant ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)
- [Cydweithio ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)
- [Adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)
- [Cyrff cyhoeddus a deunydd ar gyfer refferendwm](#)
- [Refferendwm yr UE ac etholiadau mis Mai 2016](#)
- [Adroddiadau ar roddion a benthyciadau cyn y bleidlais i ymgyrchwyr refferendwm yr UE a nodiadau esboniadol](#)

Byddwn yn cyhoeddi taflen ffeithiau yn egluro sut y gall y rheolau ar ymgyrchu mewn refferendwm fod yn gymwys sefydliadau allai fod yn cynllunio gweithgareddau arferol yn ystod cyfnod y refferendwm a gweithgareddau eraill sy'n perthyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r refferendwm.

Cofrestru fel ymgyrchwyr

Rhaid i ymgyrchwyr beidio â gwario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm, oni bai eu bod wedi cofrestru â ni.

Gallwch weld y gofrestr o ymgyrchwyr [yma](#):

Gallwch gofrestru fel ymgyrchydd naill ai [ar-lein](#) neu drwy gwblhau ffurflen [EUR1](#).

Ymgyrchwyr arweiniol dynodedig

Mae gan y Comisiwn Etholiadol ddyletswydd statudol i benodi grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig ar gyfer pob ochr o ymgyrch y refferendwm neu ar gyfer un ochr yn unig. Bydd yr ymgyrchydd dynodedig yn gweithredu fel y grŵp ymgyrchu arweiniol ar ran y rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw.

Mae'r manteision i grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig fel a ganlyn:

- terfyn gwario o £7 miliwn
- dosbarthu eu gwybodaeth am ddim i bleidleiswyr
- darllediadau ymgyrchu ar gyfer y refferendwm

- defnydd am ddim o ystafelloedd cyhoeddus penodol
- grant o hyd at £600,000 drwy arian cyhoeddus

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y broses ddynodi yma [Proses dynodi ar gyfer Refferendwm yr UE](#).

Agorodd y cyfnod gwneud cais ar gyfer y broses ddynodi ar 4 Mawrth ac mae'n dod i ben ar 31 Mawrth 2016. Mae'r cyfnod gwneud penderfyniadau yn rhedeg o 1 Ebrill hyd at 14 Ebrill 2016.

Ar ôl y dyddiad cau, sef 31 Mawrth, byddwn yn cyhoeddi enwau'r ymgyrchwyr sydd wedi gwneud cais am ddynodiad ar ein [gwefan](#). Ni wnawn sylw pellach ar ddynodiadau nes i ni gyhoeddi'r penderfyniad. Caiff ein penderfyniad ei gyhoeddi ar ein gwefan

Cyfarwyddiadau ar Lyfryn Gwybodaeth i'r Cyhoedd am Refferendwm yr UE

Rydym wedi cyhoeddi drafft o'n llyfryn gwybodaeth y cyhoedd sy'n amlinellu gwybodaeth bwysig i bleidleiswyr yn Refferendwm yr UE.

Bydd y llyfryn yn cael ei anfon ar bob cartref yn y DU rhwng 16 a 21 Mai fel rhan o'n hymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ehangach fydd hefyd yn cynnwys teledu, radio, hysbysebu awyr agored ac ar-lein.

Mae'r llyfryn yn cynnwys gwybodaeth ar sut i gofrestru, y dyddiad cau cofrestru, sut i lenwi'r papur pleidleisio a manylion gwahanol opsiynau pleidleisio. Yn ychwanegol

bydd gan y ddau brif ymgyrchydd dynodedig dudalen yn y llyfryn i roi gwybodaeth ynghylch eu hymgyrch.

[Gweld y canllaw pleidleisio drafft](#)

[\(Cymru: Cymraeg\)](#)

[Gweld y canllaw pleidleisio drafft](#)

[\(Cymru: Saesneg\)](#)

[Gweld y canllaw pleidleisio drafft](#)

[\(Lloegr a'r Alban\)](#)

[Gweld y canllaw pleidleisio drafft](#)

[\(Gogledd Iwerddon\)](#)

Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth

Rydym bob amser yn hapus i roi cyngor i ymgyrchwyr ar sut i gydymffurfio â'r rheolau. Cysylltwch â ni ar 0333 103 1929

pef@electoralcommission.org.uk

Neu defnyddiwch y cyfeiriadau e-bost isod:

- Cymru: 0333 103 1929
gywbodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Lloegr a Gibraltar:
pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban:
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon:
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

I gael gwybodaeth arall am y refferendwm

Ar ein gwefan,

www.comisiwnetholiadol.org.uk,

gallwch gael:

- rhagor o wybodaeth am ein rôl mewn refferenda
- ein hegwyddorion allweddol ar gyfer cynnal refferenda
- ein dull o asesu cwestiynau'r refferendwm
- ein canfyddiadau ar gwestiwn y refferendwm
- briffiadau ar y Bil sy'n egluro ein safbwynt ar ddarpariaethau lle bo'n briodol